DOLBENMAEN

Gwerthusiad a Chynllun Rheolaeth Ardal Gadwraeth

Chambers Conservation Ltd.

Rhifyn

Rhifyn: **- Drafft Ymgynghoriad Cyhoeddus**

Chambers Conservation Ltd
Cofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif. 09787239
Cyfeiriad Cofrestredig: Mercury House, High Street, Tattenhall, CH3 9PX
www.chambersconservation.com

Cynnwys

Y Rhan Gyntaf, Arfarniad Ardal Gadwraeth.

1.0 Cyflwyniad
- 1.1 Sut mae Defnyddio'r Ddogfen Hon
- 1.2 Golwg Gyffredinol ar yr Ardal Gadwraeth

2.0 Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig

3.0 Llinell Amser Hanesyddol

4.0 Dadansoddiad Gofodol
- 4.1 Ffurf a Threfn
- 4.2 Golygfeydd Allweddol
- 4.3 Mannau Gleision a Choed

5.0 Cymeriad
- 5.1 Trosolwg
- 5.2 Cymeriad Pensaernïol
- 5.3 Deunyddiau a Manylion
- 5.4 Ffiniau
- 5.5 Nodweddion, Manylion ac Arwynebau Eraill

6.0 Asedau hanesyddol
- 6.1 Dynodedig
- 6.2 Annynodedig

7.0 Ffin yr Ardal Gadwraeth

8.0 Hanes Cudd (Dichonoldeb Archeolegol)

9.0 Asedau Dynodedig Eraill

10.0 Bioamrywiaeth

Yr Ail Ran, Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth.

1.0 Crynodeb o Ddadansoddiad CBCG
2.0 Deall y Materion
2.1 Cyflwr
2.2 Adeiladau mewn Perygl
2.3 Golwg Cyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB
3.0 Rheolaeth Gadarnhaol
3.1 Asesiad o'r Ffiniau
3.2 Diogelwch Deddfwriaeth
3.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth
3.4 Cynaliadwyedd
3.5 Bioamrywiaeth
4.0 Ymgynghoriad

Atodiadau

A. Ffynonellau

RHAN UN – GWERTHUSIAD ARDAL GADWRAETH.

1.0 Cyflwyniad

1.1 Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

1.1.1 Dylid darllen yr Arfarniad Ardal Gadwraeth yma ar y cyd â'r ddogfen ***Cyflwyno a Throsolwg Polisi Cynllunio WEBLINK***, y gellir ei lawrlwytho o wefan y Parc Cenedlaethol. Mae'r ddogfen honno'n cynnwys eglurhad o ddiben a methodoleg yr Arfarniad hwn, ynghyd â chyflwyniad cyffredinol i hanes, tirwedd, adeiladau a ffurfiau anheddiad, a'r cefndir o ran cynllunio a deddfwriaeth.

1.1.2 Yn ogystal â'r Cynllun Rheoli sy'n mynd gyda'r arfarniad ardal hwn, cafodd dogfen bellach ***Cyngor Ynghylch Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth - Canllaw Cynllunio ac Ymarferol WEBLINK*** ei pharatoi. Bwriedir hynny fel ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd presennol ac i ddarparu cyngor ar sut i wella perfformiad ynni adeiladau traddodiadol ac adeiladau o bwysigrwydd lleol, heb niweidio eu cymeriad arbennig na'u perfformiad technegol.

1.2 Golwg gyffredinol ar yr ardal gadwraeth

1.2.1 Mae maint ardal yr astudiaeth hon wedi'i ddiffinio'n rhannol gan ffin yr Ardal Gadwraeth (gweler Ffigwr 02), ond cafodd yr ardaloedd agosaf o'i chwmpas eu cynnwys hefyd (yn cynnwys yr ardaloedd tirwedd cyfagos) er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth o'r cyswllt ehangach a phennu a fyddai'n briodol gwneud unrhyw newidiadau i'r ffin.

Lleoliad a Gosodiad

1.2.2 Mae Dolbenmaen tua saith cilometr i'r gogledd-orllewin o Borthmadog.

1.2.3 Mae'r pentref ger Afon Dwyfor mewn dolydd gwastad, sy'n codi fel sgarp craig serth Craig-y-Llan tua'r gogledd, ac yn arwain ymhellach ymlaen at gopa Craig-y-Garn. I'r de o'r afon, mae'r gwastatir yn parhau hyd at garnedd graig Bryniau Tyddyn. Mae'r safle mewn man lle mae'r dyffryn yn culhau, sydd hefyd yn lle strategol i groesi'r afon.

1.2.4 Mae'r safle'n rhannol tu mewn i'r Parc Cenedlaethol. Mae'r ffin yn cynnwys yr ardaloedd tua'r gogledd o'r hen Ffordd Caernarfon a thua'r gorllewin o Gwm Pennant.

1.2.5 Dyddiad dynodi : 1989.

01 Eglwys y Santes Fair a Chraig-y-Llan (2021).

Existing Conservation Area
1:2000 @ A4

02 Cynllun o'r Ardal Gadwraeth (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

2.0 Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig

2.1.1 Mae gan Ddolbenmaen le pwysig yn hanes Cymru. Dyma safle Maerdref Eirionydd. Yn ogystal â'r hanes pwysig yma o'r oesoedd canol mae gweithgaredd sylweddol o'r cyfnod Rhufeinig-Brydeinig a chyn hynny. Mae o bwysigrwydd hanesyddol uchel iawn. Gellir gweld hyn yng ngwead yr ardal mewn nifer o ffyrdd:

- Y mwnt yng nghanol yr ardal gadwraeth a'r berthynas gyda Phont Dolbenmaen ar draws Afon Dwyfor, yr eglwys a Phlas Dolbenmaen, sy'n set unigryw o asedau hanesyddol, wedi newid ond ychydig ers yn gynnar yn y 19eg.
- Gellir cael darlun eglur o sut roedd Dolbenmaen yn gynnar yn yr oesoedd canol oddi wrth sefyllfa'r rhain gyda'i gilydd. Mae eu lleoliad gyda'i gilydd fel hyn hefyd yn anghyffredin yng Nghymru ac felly'n bwysicach yn hanesyddol.[1]
- Mae'r mwnt yn amlwg iawn, yn enwedig mewn golygfeydd allweddol, er bod llystyfiant yn ei gorchuddio braidd ar hyn o bryd.
- Mae Plas Dolbenmaen yn dŷ gydag adeiladau cysylltiedig amlwg, ac efallai mai ar y safle hwn roedd adeiladau'r Llys.
- Credir y byddai rhyd yn lle mae Pont Dolbenmaen nawr, un efallai o gyfnod cynhanes.
- Yr ardal o amgylch eglwys y Santes Fair a'r fynwent, efallai'n gapel y Llys, a pherthynas yr eglwys a'r fynwent gyda Phlas Holland.

2.1.2 Mae'r lleoliad yn y dirwedd a thopograffi Dolbenmaen yn sylfaenol i'r diddordeb arbennig. Mae'r berthynas gyda sgarp Craig-y-Llan tua'r gogledd, Bryniau'r Tyddyn tua'r de a'r gwastatir o dir amaeth ffrwythlon rhyngddynt yng nghalon y pentref, oll yn cyfrannu at hyn. Ceir disgrifiad penodol o 'r golygfeydd hyn ymhellach ymlaen yn yr arfarniad hwn. Y golygfeydd allweddol yn dangos y berthynas hon yw:

- Golygfeydd wrth ddynesu o'r gorllewin, yn dangos y cyswllt rhwng Bryniau'r Tyddyn a Chraig-y-Llan.

03 Pont Dolbenmaen tuag at Graig-y-Llan. (Wikimedia Commons).

04 Plas Dolbenmaen o'r gogledd-ddwyrain (Casgliad y Werin Cymru)

[1] Lynch, Frances, A guide to Ancient and Historic Wales – Gwynedd, Gwasg Ei Mawrhydi, 1995, tud.168.

- Golygfeydd o'r dwyrain, yn dangos y cyswllt rhwng Bryniau'r Tyddyn a Chraig-y-Llan.
- Yr olygfa o'r bont newydd ar yr A487 at draws Pont Dolbenmaen i Graig-y-Llan.
- Yr olygfa o Eglwys y Santes Fair, Porth y Fynwent a Chraig-y-Llan gyda'r ffordd yn lledu tu blaen iddi, gan greu lle gyda mwy o sylwedd iddo.
- Yr olygfa tuag at Graig-y-Llan ar draws y fynwent a'r caeau tu draw.
- Yr olygfa o'r gorllewin dros dir amaethyddol tuag at y Mwnt.

2.1.3 Mae'r dreftadaeth adeiledig sy'n sefyll yn Nolbenmaen yn rhoi darlun eglur o'i tharddiad ac esblygiad. Fe adlewyrchir hyn yn ei threfn, pensaernïaeth, deunyddiau a manylion, sy'n cyfrannu at y pwysigrwydd Esthetig a Chymunedol. Mae'r elfennau allweddol yn cynnwys:

- Perthynas Plas Dolbenmaen gyda'r Mwnt a Phont Dolbenmaen. Mae'r berthynas hon yn ffisegol (gyda'r adeiladau allan yn uno'n uniongyrchol gyda'r mwnt), yn weledol (sef eu bod yn yr un golygfeydd) a hanesyddol h.y. efallai mai adeiladau Plas Dolbenmaen oedd safle adeiladau gwreiddiol y Llys, ac mae'n debyg bod yr adeiladau presennol yn cynnwys elfennau o adeiladwaith o'r 17^{eg} a chynharach.
- Porth y fynwent, darn lletach o'r ffordd a'r cysylltiad rhwng eglwys y Santes Fair â'r Mwnt gyferbyn.
- Y berthynas rhwng yr eglwys a Phlas Holland. Manylion gwaith cerrig a deunyddiau. Y mathau o graig igneaidd galed a'r pwyntio calch bras (fyddai wedi cael ei wyngalchu). Yr olaf o'r rhain i'w weld yn enwedig yn yr eglwys a phorth y fynwent, ynghyd â thoeau llechi mewn rhesi o feintiau sy'n lleihau wrth fynd yn uwch (i'w gweld ar Blas Dolbenmaen, porth y fynwent a tho'r eglwys ar yr ochr dde-orllewinol).
- Gwaith cerrig yn y muriau terfyn, ynghyd â giatiau haearn o batrwm a manylion traddodiadol.
- Gorffeniad o wyngalch ar Fin-y-Ddôl, (er mai paent modern sydd yn ei le erbyn hyn) a gorchudd o haearn rhychog o adeg ar ôl 1945 ar y Byngalo.

2.1.4 Mae Dolbenmaen hefyd o bwysigrwydd mawr yn ddiwylliannol a chymunedol, yn bennaf oherwydd y cysylltiad gyda Thywysogion Gwynedd,

05 Y Mwnt o'r fynwent (2021).

06 To porth yr eglwys, llechi mewn rhesi, o faint llai wrth fynd yn uwch a cherrig copin hir (Noder mai to newydd yw hwn, gosodwyd yn ystod y tua 5 mlynedd ddiwethaf (2021).

ac wedyn gyda stadau lleol a rhanbarthol o bwys. Mae hefyd gyfeiriad at yr ardal ym mhedwaredd cainc y Mabinogi, yn hanes Pwyll, Pendefig Dyfed.

3.0 Llinell Amser Hanesyddol

Cyn-hanesyddol

3.1.1 Mae llawer o fanylion mewn llefydd eraill am hanes Dolbenmaen, a dim ond i roi cefndir y mae'r grynodeb isod.

3.1.2 Mae lleoliad Dolbenmaen ar dir cymharol ffrwythlon yn amlwg wedi arwain at anheddiad yn yr ardal dros gyfnod hir. Tua 400m tua'r de o'r pentref mae gwersyll Craig-y-Tyddyn[2], caer fechan o gynhanes (oes yr haearn – Rufeinig Brydeinig) ar y gefnen uwchben anheddiad islaw.

3.1.3 Tua'r gogledd mae Castell Caerau[3] sy'n strwythur gyda mwy o amddiffyniad ac o'r un cyfnod. Mae'n debyg bod anheddiad yn bodoli rhwng y pentref presennol a Chastell Caerau, ac mae grŵp pellach o gytiau tu mewn i fur tua'r dwyrain o Daleifion, tua'r gogledd-ddwyrain, yn dangos y bu cyfnod hir o breswylio.

3.1.4 Dengys canfyddiadau ac olion cynharach, sy'n nodweddiadol yn safleoedd claddu neu ddefodol, y bu preswylio yn yr ardal ehangach o Oes y Cerrig hyd at Oes yr Efydd[4]

Canoloesol

3.1.5 Yn y drydedd ganrif ar ddeg, roedd Gwynedd wedi'u rhannu'n 22 ardal a elwid yn gymydau, pob un yn cael ei weinyddu o lys. Roedd y llys yn gasgliad o adeiladau, fel arfer yn cynnwys neuadd, cegin, stablau a strwythurau domestig eraill cysylltiedig. Byddai'r llys brenhinol yn teithio rhwng y canolfannau hyn, yn casglu trethi, gweinyddu cyfiawnder ac yn gwesteia. Y llys oedd canolbwynt y faerdref, sef trefgordd frenhinol gyda thir yn gysylltiedig.

3.1.6 Mae Dolbenmaen yng nghalon Cwmwd Eifionydd. Roedd gan bob Cwmwd drefgorddau rhydd a chaeth a maerdref frenhinol, lle trigai gwŷr caeth, a lle roedd adeiladau'r llys.

3.1.7 O ganlyniad i hyn, roedd Dolbenmaen yn drefgordd gaeth ac yn cael ei dal mewn daliadaeth gyfyngedig iawn hyd at yn hwyr yn y 15fed ganrif. Byddai gwŷr caeth ynghlwm wrth y llys, i weithio tiroedd yr Arglwydd, ac oherwydd hynny mae'r tai wedi'u gosod yn dynn o gwmpas y Llys, ac mae modd hyd yma i ganfod hynny.[5]

07 Rhan o'r map Degwm, 1844.

08 Golygfa o'r Mwnt o'r A487 (2021).

[2] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/sam/FullReport?lang=&id=3168
[3] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/sam/FullReport?lang=&id=3168
[4] Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd. adroddiad rhif. 2155. Arfarniad Drafft Ardal Gadwraeth Dolbenmaen, 2011.
5 Lynch, Frances, A guide to Ancient and Historic Wales – Gwynedd, Gwasg Ei Mawrhydi, 1995, tud.169.

3.1.8 Mae tomenni ar rai safleoedd llys, yn cynnwys Abergwyngregyn. Roedd rhai o'r rhain yn nodweddion cynharach wedi'u hailddefnyddio, eraill wedi'u hadeiladu gan y Tywysogion.

3.1.9 Nid yw'n eglur a yw'r mwnt yn Nolbenmaen o darddiad Normanaidd ynte Gymreig, ond mae'r dystiolaeth o ran lleoliad, daliadaeth ac amddiffynfeydd yn awgrymu bod canolfan y cwmwd yn Nolbenmaen, hyd nes symudwyd hi gan Llywelyn ap Iorwerth yn yr 1230au i gastell newydd yng Nghricieth[6].

3.1.10 Mae Dolbenmaen yn ymddangos yn hanes Pwll, Pendefig Dyfed yn y Mabinogion, lle cofnodir iddo *yn ei ymgyrch yn erbyn Math, Brenin Gwynedd….gilio i Ddolbenmaen*[7].

16 – 17eg Ganrif

3.1.11 Erbyn 1603, roedd y drefgordd wedi'i phrydlesu oddi wrth y goron gan Griffith Williams, a'i frawd Ellis yn amaethu yn Nhyddyn Mawr. Gadawyd hi, trwy gyfrwng ei fab, i Syr Richard Trevor o Drefalun.

3.1.12 Yn 1620 fe adeiladodd Sir Richard dŷ, ar safle'r Plas Dolbenmaen presennol mae'n debyg. Erbyn 1637 gadawyd y tiroedd i John Griffith o Gefn Amwlch[8] ac fe'u prynwyd oddi wrth y goron.[9] Yn 1719, gwerthwyd y tiroedd i deulu Brynker (o Fryncir) ac wedyn yn 1736 i William Owen o Glenennau a Brogyntyn (sedd y teulu ger Croesoswallt), ac aeth ymhen amser trwy briodas i deulu Ormesby-Gore.

18fed a Dechrau'r 19eg Ganrif

3.1.13 Fe adeiladwyd y rheithordy ar diroedd llan oedd yn eiddo i'r eglwys. Codwyd yr adeilad presennol yn 1786, gan ehangu rheithordy cynharach, llai o faint. Cai'r adeilad ei adnabod hefyd yn gynharach fel Ty'n y Llan. Cafodd ei enwi'n ddiweddarach er anrhydedd i'r Parchedig Jeffrey Holland, (1782-1833) 4ydd mab uchel siryf y sir, a wirfoddolodd i wasanaethu'r llynges ac oedd yn bresennol ym mrwydr y Gogoneddus Gyntaf o Fehefin (1794). Mae'r tŷ yn eiddo preifat nawr.

3.1.14 Mae awgrym y cafodd Plas Dolbenmaen a'r bont efallai eu hailadeiladu neu eu newid yn ystod y cyfnod hwn, sy'n cynnig y bu cyfnod o fuddsoddi yn hwyr yn y 18fed ganrif.

3.1.15 Yn arolwg y degwm ar gyfer 1839, gwelir bod Plas Dolbenmaen yn dal tiroedd yn cynnwys y mwnt. Bwthyn bychan (a ddangosir fel Ty Connol, ar fap ordnans 1888, Tŷ Canol) ac ysgol.

09 Rhan o'r Map Ordnans, Arolwg 1888.

10 Plas Holland (2021).

[6] Lloyd, J. E. (1905) *Some notes on Medieval Eifronydd*, Archaeologica Cambriensis, 299
[7] Ibid, 296.
[8] https://biography.wales/article/s-GRIF-CEF-1481
[9] Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, adroddiad rhif 2155. Dolbenmaen Draft Conservation Area Appraisal, 2011. Tud. 4.

Diwedd y 19eg Ganrif.

20fed Ganrif.

3.1.16 Adnabyddir yr eglwys fel eglwys Sant Beuno ar fap 1888 ac fel capel Penmorfa, ond newidiodd hyn i'r Santes Fair rhwng 1888 a 1901. Mae'r eglwys yn ei hanfod yn adeilad o un gell o'r 15fed ganrif, ond gallai fod o darddiad llawer cynharach, yn gysylltiedig â'r CwMwnt. Mae gan borth y fynwent arysgrif yn dweud *'Built in 1847 by the Reverend G. Owen MA'.* Efallai bod arysgrif yn is i lawr yn cyfeirio at adeiladwaith cynharach yn 1747.[10]

3.1.17 Gwerthwyd y tiroedd gan drydydd Barwn Harlech (George Ormesby-Gore) yn 1911. Fel sydd i'w weld ar fap ordnans 1888, erbyn hynny roedd Plas Dolbenmaen yn dafarn o'r enw 'Dolbenmaen Castle'. Roedd Tŷ Canol a'r tir o gwmpas Min y Ddôl (oedd gynt yn ysgol) hefyd wedi'u rhestru yn y gwerthiant.

3.1.18 Ychydig o newid a fu yn yr 20fed ganrif. Mae'n ymddangos yr adeiladwyd 'y byngalo', sy'n llawn cymeriad ac o sitiau haearn rhychog, yn union ar ôl yr ail ryfel byd, tua'r gogledd-orllewin ac ychydig tu allan i'r ardal gadwraeth. Fe adeiladwyd y ffordd osgoi a'r bont newydd yn 1973.

3.1.19 Yn anffodus, cafodd Tŷ Canol ei ddymchwel tua 1985 a'i ail adeiladu (a'i ddadgofrestru yn dilyn hynny). Deellir ei fod yn adeilad rhestredig ar y pryd. Ni chafodd ei ailadeiladu yn ei ffurf gwreiddiol. Yn ddiweddar, crëwyd iard gwasanaeth cludo nwyddau yn gyfagos, gyda siediau metel cysylltiedig, i'r gorllewin o Dŷ Canol.

4.0 Dadansoddiad Gofodol

4.1 Ffurf a Threfn Anheddiad

4.1.1 Mae ffurf anheddiad Dolbenmaen yn parhau i adlewyrchu datblygiad Llys Tywysogaidd a Thomen yng nghyswllt Afon Dwyfor. Bwriadwyd y safle i wneud y defnydd gorau o'r tir ffrwythlon, ond hefyd y tir uwch ar gyfer amddiffyn, ac roedd yn fan allweddol i groesi'r afon wrth ymyl lle roedd rhyd yn wreiddiol. Mae'r anheddiad wedi'i leoli mewn man cymharol gul, cyn cyrraedd Cwm Pennant, rhwng Bryniau'r Tyddyn a Chraig-y-Llan, sy'n rhoi lleoliad strategol iddo.

4.1.2 Tua'r gogledd o'r pentref, mae'r tir amaethyddol yn cyrraedd sgarp creigiog Craig-y-Llan, gyda chopa uwch Craig-y-Garn (uchder 363m AOD) tu cefn iddo. Tua'r de, mae Bryniau'r Tyddyn yn codi o'r gwastatir, a'r tir uwch yn parhau tua'r de hyd at yr arfordir yng Nghricieth.

11 Pont Dolbenmaen o'r de-orllewin (2021).

12 Adeiladau allan rhestredig Plas Dolbenmaen – noder y toeau modern. (2021).

[10] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=21522

4.1.3 Mae'r drefn hefyd wedi'i diffinio gan ei pherthynas gydag Afon Dwyfor. Gosodwyd y Mwnt rywfaint o ffordd oddi wrth yr afon, gan adael lle i ddatblygu adeiladau'r Llys, lle mae Plas Dolbenmaen yn sefyll nawr.

4.1.4 Mae'r prif lwybr trwy'r anheddiad, er bod ffordd osgoi erbyn hyn, yn cysylltu Caernarfon tua'r gorllewin a Phorthmadog tua'r dwyrain (sef yr A487).

4.1.5 Heblaw am y ffordd osgoi, mae ffurf y pentref fel ag yr oedd yn 1841, gyda ffordd yn rhedeg tua'r gogledd-ddwyrain i Gwm Pennant, yn cyfarfod beth oedd gynt yn ffordd o Borthmadog i Gaernarfon wrth yr eglwys. Heblaw am Blas Dolbenmaen, roedd yr holl ddatblygiad tua'r gogledd o'r ffordd, yn cynnwys yr eglwys a'r ysgol.

4.1.6 Y dyddiau hyn mae'r ffordd dros Bont Dolbenmaen ddim ond at ddefnydd cerddwyr neu drafnidiaeth fferm, gyda'r prif gysylltiad i'r A487 yn y pen gorllewinol.

4.2 Golygfeydd allweddol

4.2.1 Tu mewn i'r ardal gadwraeth, mae nifer o olygfeydd allweddol sydd naill ai'n dangos datblygiad hanesyddol y pentref, neu'n caniatáu gwerthfawrogi nodweddion penodol neu strwythurau allweddol neu'n rhoi dealltwriaeth gywir o'i ddatblygiad yn y dirwedd ehangach. Mae golygfeydd eraill pwysig lle ceir cipolwg rhwng adeiladau neu gipolwg o nodweddion allweddol, sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth o gymeriad yr ardal.

4.2.2 Mae golygfeydd naill ai'n statig (golygfa i gyfeiriad penodol) neu'n ddynamig ac yn cynnwys maes gweledigaeth o fan benodol.

4.2.3 Mae'r rheiny fel a ganlyn (gweler ffigwr 17):

A Golygfeydd dynamig wrth ddynesu o'r gorllewin, yn dangos y cyswllt thwng Bryniau'r Tyddyn a Chraig-y-Llan.

B Golygfeydd dynamig o'r dwyrain, yn dangos y cyswllt rhwng Bryniau'r Tyddyn a Chraig-y-Llan.

C Golygfa o'r bont newydd, ar draws Pont Dolbenmaen tuag at Graig-y-Llan.

D Golygfa trwy'r coed tuag at wyneb Plas Dolbenmaen.

E Golygfa ddynamig o'r de, yn dangos y Mwnt ac adeiladau allan rhestredig Plas Dolbenmaen.

F Golygfeydd rhwng adeiladau allan rhestredig Plas Dolbenmaen (wedi'i chuddio'n rhannol).

13 Golygfa tuag at Graig-y-Llan o'r fynwent (2021).

14 Pont Dolbenmaen a Chraig-y-Llan. (2021).

G Golygfa ddynamig o'r gogledd, yn dangos y Mwnt ac adeiladau allan rhestredig Plas Dolbenmaen (yn cynnwys yr olygfa o'r fynwent tua'r Mwnt).

H Golygfa o Eglwys y Santes Fair, Porth y Fynwent a Chraig-y-Llan gyda'r ffordd yn lletach o'i blaen, sy'n creu lle gyda mwy o sylwedd iddo.

I Yr olygfa trwy Borth y Fynwent tuag at yr eglwys.

J Yr olygfa o Eglwys y Santes Fair a Phlas Holland ar draws y fynwent.

K Yr olygfa tuag at Graig-y-Llan ar draws y fynwent a'r caeau tu hwnt.

L Yr olygfa o'r gorllewin ar draws dir amaeth at y Mwnt.

4.3 Mannau Gleision a Choed

4.3.1 Mae mannau gleision Dolbenmaen yn dir amaeth agored sy'n cyrraedd at yr anheddiad, rhan o fynwent y Santes Fair, a'r mannau allweddol o amgylch y Mwnt.

4.3.2 Tir amaeth agored sydd o gwmpas y pentref tua'r gorllewin, y gogledd a'r dwyrain. Mae'r rhannau tua'r de wedi'u gwahanu'n ffisegol erbyn hyn gan yr A487.

4.3.3 Mae tir amaeth agored yn ymestyn i mewn i'r pentref rhwng y Mwnt a chyffordd y ffordd (gweler ffigwr 15), gan roi golygfa hir tuag at y domen a chefndir pwysig i adeiladau eraill y pentref, y cyfan ar ochr ogleddol yr hen ffordd Caernarfon.

4.3.4 Mae'r tir tua'r gogledd a'r dwyrain yn ffurfio'r cefndir ar gyfer y pentref a sgarp Craig-y-Llan.

4.3.5 Mae'r fynwent yn werth ei nodi, yn debygol o fod wedi'i chysylltu â'r Llys i ddechrau. Y dyddiau hyn mae wedi'i diffinio gan gerrig bedd a beddrodau llechen o ansawdd uchel mewn cefndir tirwedd da. Ceir mynediad iddi trwy Borth y Fynwent, sydd o safon uchel ac o'r 19eg ganrif.

4.3.6 Dangosir coed unigol a grwpiau o goed nodedig ar gynllun yn Ffigwr 18, ac maen nhw'n cynnwys:

- Ywen unigol yn y fynwent.
- Y mwyaf amlwg o'r coed tua'r dwyrain o Blas Dolbenmaen (yr enghreifftiau gorau, sy'n bennaf yn Dderw a Sycamorwydden).
- Coed tua'r gorllewin o'r Mwnt (nad ydynt yn amharu ar olygfeydd allweddol).
- Coeden ger y fynedfa ac ar ffin Plas Holland.

15 Cae agored rhwng y gyffordd gyda'r A487 a'r Mwnt. (2021)

16 Tir agored a gwastatir l'r gogledd o Pont Dolbenmaen (2021).



Key Views
1:2000 @ A4

 Golygfeydd Allweddol (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

Trees

1:2000 @ A4

18 Coed a Gorchmynion Cadw Coed (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

5.0 Cymeriad

5.1 Golwg gyffredinol

5.1.1 Ychydig iawn mae'r pentref wedi newid yn ystod y 200 mlynedd ddiwethaf, heblaw am fod y ffordd newydd yn osgoi'r pentref. Mae ei gymeriad wedi'i ddiffinio'n bennaf gan berthynas y Mwnt, Plas Dolbenmaen, Afon Dwyfor a'r Eglwys fel grŵp.

5.1.2 Mae'r lleoliad yn nodedig, o'r dwyrain a'r gorllewin yng nghyswllt Craig-y-Llan tua'r gogledd a Bryniau'r Tyddyn tua'r de, gyda'r gwastatir yn arwain at gefnau y naill ochr o'r pentref.

5.1.3 Mae pwysigrwydd y ffordd o Borthmadog i Gaernarfon ac adeiladu'r bont newydd ger Pont Dolbenmaen wedi mynd â'r trafnidiaeth, ac felly'r prysurdeb, i ffwrdd oddi wrth ganol y pentref, ond ychydig o newid a fu mewn aliniad a threfn y ffyrdd yn y pentref.

5.2 Cymeriad Pensaernïol

5.2.1 Mae cymeriad pensaernïol presennol yr anheddiad yn amrywiol, ond er hynny mae'n rhoi darlun eglur o ddatblygiad Dolbenmaen dros y canrifoedd.

5.2.2 Mae'r cymeriad pensaernïol tua'r dwyrain o'r ardal Gadwraeth wedi'i ddiffinio gan y berthynas gyda'r Mwnt. Mae'n debyg mai ar safle Plas Dolbenmaen roedd adeiladau Llys, ac efallai y safai capel yn gysylltiedig â'r Llys ar safle'r eglwys.

5.2.3 Mae'r ffordd yn lletach tu allan i Borth yr Eglwys, sydd o'r 19eg ganrif, ac mae hynny'n cynyddu statws y gyffordd. Mae'r golygfeydd tua'r Mwnt wedi'u cuddio i raddau gan lystyfiant ac wedi'u cuddio'n rhannol gan gynhwysydd storio mawr, ond mae'r berthynas weledol yn parhau'n gryf.

5.2.4 Mae'r Plas Dolbenmaen[11] presennol nawr yn ffermdy sylweddol o'r 18fed ganrif, gyda rhai rhannau'n debygol o fod yn tarddu o oes lawer cynharach. Mae'n ymddangos bod rhai elfennau ynddo y gallent fod yn rhannau o'r tŷ newydd a godwyd gan Syr Richard Trevor yn gynnar yn y 17eg Ganrif, ac efallai bod adeiladwaith cynharach yn bodoli. Mae'n ymddangos ym manylion trethi 1662, pan oedd yn un o ddim ond dau dŷ yn yr ardal gyda

[11] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=4280

19 Eglwys y Santes Fair a Phlas Holland (2021).

20 Plas Dolbenmaen (2021).

dwy aelwyd.[12] Dangosir ef ar fap ordnans argraffiad 1af y gyfres Sirol (tua 1888) fel tafarn y Dolbenmaen Castle.

5.2.5 Mae'r berthynas weledol, bensaernïol a ffisegol rhwng Plas Dolbenmaen a'r Mwnt yn bwysig iawn. Mae'r adeiladau allan wedi'u rhestru ar wahân, sydd hefyd yn adlewyrchu'r gwerth pwysig hwn fel grŵp. Gallai newid amhriodol fod yn niweidiol iawn i hyn, ac mae angen monitro'n ofalus.

5.2.6 Fe gafodd yr adeiladau allan doeau newydd o lechi wedi'u torri gyda pheiriant, sy'n brin o gymeriad o'i gymharu â llechi to cynharach sydd i'w gweld mewn ffotograffau a gedwir gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Nid yw'n eglur a yw'r manylion gwreiddiol y sonnir amdanynt yn y rhestru wedi cael eu cadw y tu mewn i'r adeilad.

5.2.7 Mae'r adeiladau a'r muriau, o gerrig sych llawn cymeriad, yn cyffwrdd y Mwnt yn uniongyrchol (ac hyd yn oed wedi'u torri i mewn i'r Mwnt ychydig), ac mae'r cytiau moch o gerrig cymysg yn flaendir boddhaus o gyfeiriad y de, y giatiau cynnar a'r mannau wedi'u hamgáu gan furiau cerrig sychion, oll yn bwysig o ran cymeriad yr adeilad a'r cefndir.

5.2.8 Mae Plas Dolbenmaen ei hunan wedi'i adeiladu o flociau mawr o garreg yn y drychiad yn y gogledd-ddwyrain, yn anffodus wedi'u pwyntio gyda sment ar hyn o bryd, a ffenestri 2/2 syml o'r 19eg ganrif, sydd wedi cael eu gorchuddio ar hyn o bryd. Mae'r to yn llechi gyda'r rhesi'n llai eu maint wrth fynd at i fyny, sy'n nodwedd bwysig.

5.2.9 Gyferbyn, mae porth y fynwent, sy'n dyddio o tua 1847, ac yn strwythur llawn cymeriad gyda thalcen bâs. Cafodd ei adeiladu o gerrig lleol, gyda rhai mwy o faint yn y gwaelod a llai yn uwch i fyny. Ynddo mae bwa gothig yn y canol gyda giatiau, a dwy ran is ar gyfer storio, efallai ar gyfer elor ac offer torrwr beddi.

5.2.10 Cafodd to porth yr eglwys ei drwsio yn ddiweddar, a'r cyfan ei ail bwyntio, gan gadw llechi mwy trwchus sydd mewn rhesi ac yn llai eu maint wrth fynd at i fyny, a cherrig copin sylweddol o garreg.

5.2.11 Mae'r bwa, wrth ddynesu ato, yn ffrâm i olygfa dda o eglwys y Santes Fair a thu hwnt, sy'n agor i ddangos Plas Holland wrth adael porth y fynwent .

5.2.12 Roedd Eglwys y Santes Fair gynt yn gapel i Benmorfa, ac wedi'i chysegru i Sant Beuno ar yr adeg honno. Credir bod yr adeilad presennol o'r bymthegfed ganrif ac yn ddiweddarach, ac wedi'i newid lawer yn y 19eg Ganrif. Mae ganddi gorff a changell, heb raniad. Mae trawstiau to ynddi o'r oesoedd canol diweddar.

21 Y Mwnt (ar y chwith) ac adeiladau allan Plas Dolbenmaen (2021).

22 Porth yr Eglwys o'r blaengwrt. (2021).

[12] https://coflein.gov.uk/en/site/16741?term=dolbenmaen

5.2.13 Yn allanol, mae'r eglwys wedi'i hadeiladu o gerrig cymysg gyda rhai cerrig mawr iawn yn y gwaelod a'r conglfeini. Mae natur y pwyntio'n awgrymu bod yr eglwys wedi'i gwyngalchu yn y gorffennol. Mae cwt clychau bychan uwch yn wybebu Plas Holland.

5.2.14 To llechi sydd gan yr eglwys, mewn rhesi ac yn llai o faint wrth fynd at i fyny ar yr ochr yn wynebu'r Mwnt, ond mewn maint cyfartal ar yr ochr tuag at Graig-y-Llan.

5.2.15 Mae'n bosibl y sefydlwyd yr eglwys fel capel yn wreiddiol, wedi'i gysylltu â'r llys.

5.2.16 Tua'r dwyrain o Blas Dolbenmaen mae Pont Dolbenmaen[13] Mae'n debyg y codwyd y bont bresennol yn rhan olaf y 18fed ganrif pan oedd gwelliannau'n digwydd i ffordd Tremadog-Caernarfon. Mae'n debyg ei bod wedi disodli adeiladwaith cynharach, ac efallai bod rhai elfennau o hwnnw wedi'u cynnwys ynddi.

5.2.17 Tua'r gorllewin o'r eglwys mae Plas Holland, yr hen reithordy. Ar yr ochr yn wynebu'r Mwnt, mae'n dangos arwyddion cryf o fod o'r 18fed ganrif, ond mae'r adeiladau yn y cefn yn amlwg o adeg gynharach, gyda simnai sylweddol a ffenestri dormer bychain. Cafodd y cyfan ei orchuddio gyda rendrad modern ond mae ffenestri cortyn yn parhau yn eu lle. Mae'n ffurfio grŵp boddhaus gyda'r eglwys a'r cerrig beddi a'r cofebau. Cafodd adeilad pren anffodus ei godi ar derfyn y fynwent, gan amharu ar yr olygfa.

5.2.18 Tu draw i Blas Holland mae'r Tŷ Canol modern. Codwyd hwn yn lle adeilad cynharach oedd, ar yr adeg honno, wedi'i restru. Adeilad carreg yw'r un presennol ond heblaw am hynny does dim byd arbennig amdano ac mae'n anffodus yng nghyswllt yr adeiladau hanesyddol o'i gwmpas. Mae'r iard a'r wyneb o goncrit gydag adeiladau dur (sy'n rhannol tu mewn i'r ardal gadwraeth) hefyd yn ymwthiol yn yr olygfa.

5.2.19 Mae Min-y-Ddôl yn fwthyn unllawr clasurol, efallai gyda tho gwellt yn wreiddiol ond nawr gyda tho llechi cymharol fodern. Mae'r ffenestri'n rhai modern, a'r drws mynediad o ran gyntaf yr 20fed ganrif. Mae estyniad cymharol fodern o fetel proffil, wedi'i sgrinio gan y muriau sy'n amgáu tua'r dwyrain.

5.2.20 Mae'r Byngalo ychydig tu allan i derfyn presennol yr ardal gadwraeth, ond mae o rywfaint o ddiddordeb. Fe'i adeiladwyd o sitiau haearn rhychog, mae'n ymddangos ychydig ar ôl yr ail ryfel byd (yn ôl tystiolaeth map ordnans). Mae fwy neu lai heb ei newid, heblaw am ffenestri uPVC diweddarach.

23 Yr Eglwys a Phlas Holland. Adeiladau cynharach tu cefn i Blas Holland, noder yr adeilad allan sy'n amharu ar yr olygfa (dde). (2021).

24 Min-y-Ddôl (2021).

[13] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=4213

5.3 Deunyddiau a Manylion

5.3.1 Prif ddeunydd adeiladu Dolbenmaen yw carreg. Daeth y mwyafrif ohono o'r llethrau cyfagos, wedi'i gloddio'n benodol at y diben. Mae cerrig tywyll, creigiau igneaidd, basalt, doleritau ayyb yn amlwg ac yn bwysig i'r cymeriad, felly hefyd y cenau a'r mwsoglau sy'n byw arnynt, yn enwedig ar furiau terfyn. Mae'n debyg y byddai'r adeiladwaith cynnar (fel sydd i'w weld yn yr eglwys) wedi cael ei wyngalchu.

5.3.2 Yn gyffredinol, mae'r muriau cerrig y gellir eu gweld yn rwbel heb fod mewn rhesi, mewn rhai mannau gyda chonglfeini a manylion (yr eglwys, adeiladau allanol Plas Dolbenmaen). Mae wyneb blaen Plas Dolbenmaen a Phorth y Fynwent yn rwbel mewn rhesi. Mae'r olaf o'r rheiny'n mynd yn gulach wrth fynd yn uwch i fyny'r mur.

5.3.3 Mae Plas Holland wedi'i rendro (nawr mewn rendr modern). Efallai ei fod wedi'i rendro ers adeg adeiladu rhan ddiweddarach y tŷ yn yr 1780au, i ddod ag undod i'r rhannau cynharach a diweddarach, ond mae'r rendr presennol yn brin o gymeriad. Mae Min-y-Ddôl wedi'i wyngalchu gyda phaent modern (ond mae'n bosibl iawn ei fod wedi'i wyngalchu mewn ffordd draddodiadol cyn hynny).

5.3.4 Toeau llechi yw'r cyfan (heblaw am y Byngalo) ond mae amrywiaeth sylweddol ynddynt. Rhesi o lechi sy'n lleihau mewn maint wrth fynd at i fyny sy'n parhau i fod ar Blas Dolbenmaen, Porth y Fynwent tho'r eglwys ar y rhan yn wynebu tua'r de.

5.3.5 Mae'r simneiau wedi'u hadeiladu o gerrig ac ar raddfa sylweddol. Ym Mhlas Dolbenmaen, mae'r simneiau mawr yn awgrymu eu bod o'r 17^{eg} ganrif, ac felly hefyd ran gefn Plas Holland.

5.3.6 Mae'n ymddangos bod ffenestri ym Mhlas Dolbenmaen sy'n deillio o'r 19^{eg} yn bennaf. Mae'r rhain wedi'u cuddio'n rhannol gan fyrddau diogelwch ond mae'n ymddangos eu bod o drefn 2/2 yn yr wyneb blaen. Ym Mhlas Holland, mae ffenestri cortyn gyda gwydrau bach ynddynt, sef y math welid amlaf mewn adeiladau preswyl. Ffenestri modern sydd gan Fin-y-Ddôl a'r Byngalo erbyn hyn.

5.4 Ffiniau

5.4.1 Mae'r diffiniad o le yn Nolbenmaen yn hanfodol ar gyfer ei gymeriad, a'r ffordd bennaf o ddiffinio lle yw gyda muriau cerrig.

5.4.2 Muriau o gerrig sych yw'r math pennaf, ac yn nodweddiadol yn gymysgedd o wahanol greigiau igneaidd, yn gyffredinol ddim yn llechen. Mae cenau a mwsoglau'n bwysig i gymeriad y muriau.

25 Y Byngalo (2021).

26 Creigiau igneaidd gyda graen mân ym Mhorth yr Eglwys, wedi'i ailbwyntio'n ddiweddar (2021).

5.5 Nodweddion, Manylion ac Arwynebau Eraill.

5.5.1 Mae gan y pentref nodweddion a gwrthrychau eraill sy'n cyfrannu at ansawdd a diddordeb yr Ardal Gadwraeth.

5.5.2 Mae nifer o giatiau traddodiadol yn parhau, yn aml yn rhai wedi'u rhybedu, sy'n bwysig i gymeriad yr ardal gadwraeth, yn enwedig rhwng y Mwnt a'r ffordd (sydd wedi'i gorchuddio'n rhannol gan lystyfiant) ac i'r cae gerllaw.

5.5.3 Daw arwyddion â rywfaint o ddiddordeb ychwanegol, yn cynnwys yr un am wasanaethau'r eglwys uwchben Porth y Fynwent, a'r arwydd Beddgelert 6 ¾ milltir tu allan i dŷ Tŷ Canol.

5.5.4 Mae rhai beddrodau a cherrig beddi o ansawdd uchel yn y fynwent, gyda gwaith cerfio a phatrwm anghyffredin sydd o ansawdd uchel.

6.0 Asedau Hanesyddol

6.1 Asedau Hanesyddol Dynodedig

Gwelir yr asedau hanesyddol dynodedig (adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig) a ganlyn yn yr ardal gadwraeth (gweler Ffigwr 31):

6.1.1 Henebion Cofrestredig

- *CN063 Mwnt Castell Dolbenmaen.*

6.1.2 Adeiladau Rhestredig

- *4213 Pont Dolbenmaen*
- *4278 Eglwys y Plwyf, y Santes Fair*
- *4279 Plas Holland*
- *4280 Plas Dolbenmaen*
- *4281 Adeiladau Fferm y Gogledd-orllewin ym Mhlas Dolbenmaen*
- *21551 Adeiladau Fferm y Gogledd-ddwyrain ym Mhlas Dolbenmaen*
- *21552 Adeilad Tŷ Golchi ym Mhlas Dolbenmaen*
- *21522 Porth y Fynwent ar gyfer Eglwys y Santes Fair*

6.2 Asedau Hanesyddol Annynodedig o Ddiddordeb Lleol Arbennig

Pennwyd bod yr asedau hanesyddol annynodedig a ganlyn yn yr ardal gadwraeth o ddiddordeb lleol arbennig (gweler Ffigwr 32):

27 Mae giatiau traddodiadol yn parhau mewn nifer o leoliadau ac maen nhw'n bwysig (2021).

28 Muriau cerrig (er gyda conglfeini wedi gosod mewn morter) ac arwyddion haearn bwrw to allan I Ty Canol (2021).

- *Yr holl furiau terfyn a muriau cynnal*
- *Min-y-Ddôl*
- *Y Byngalo*

7.0 Ffin yr Ardal Gadwraeth

7.1.1 Ar ôl cynnal yr arfarniad, cynigir y dylid estyn ychydig ar ffin yr ardal gadwraeth, i gynnwys y Byngalo, sy'n bwysig fel ychwanegiad i'r anheddiad, a adeiladwyd ar ôl yr ail ryfel byd ac sydd wedi'i gadw'n dda ac yn llawn cymeriad.

7.1.2 Estyniad arfaethedig i'r ffin, gweler ffigwr 33.

8.0 Hanes Cudd (dichonoldeb archeolegol)

8.1.1 Roedd Dolbenmaen ar lwybr trafnidiaeth rhanbarthol pwysig ers o leiaf oes y Rhufeiniaid. O ganlyniad, mae posibilrwydd sylweddol iawn fod dyddodion archeolegol yn bresennol ar draws yr ardal gadwraeth. Mae hyn yn fwy tebygol fyth oherwydd y berthynas gyda'r caerau ac aneddiadau rhestredig yng Ngwersyll Craig-y-Tyddyn a Chastell Caerau.

8.1.2 Nid yw'n eglur o bell ffordd beth oedd maint y llys ac unrhyw anheddiad cnewyllol yn yr Oesoedd Canol. O ganlyniad, mae posibilrwydd sylweddol fod dyddodion archeolegol ger y Mwnt ac o gwmpas Plas Dolbenmaen.

9.0 Asedau Dynodedig Eraill

9.1.1 Nid oes unrhyw asedau dynodedig eraill tu mewn i'r ardal gadwraeth nac yn agos ati.

9.2 Gorchmynion Cadw Coed

9.2.1 Ar hyn o bryd, does dim gorchmynion cadw coed wedi'u cofnodi tu mewn i'r ardal gadwraeth.

29 Beddrodau a cherrig beddi ar y llwybr tuag at yr eglwys. (2021).

30 Cynhwysydd storio yn cael effaith wael ar olygfa o'r Mwnt. (2021).

Listed Buildings and Scheduled Monuments

1:2000 @ A4

 (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

Undesignated Assets of Special Local Interest
1:2000 @ A4

 (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

10.0 Bioamrywiaeth

10.1 Coed

10.1.1 Gweler 9.2 am Orchmynion Cadw Coed.

10.1.2 Gweler 4.3 am ddisgrifiad o goed allweddol/ardaloedd allweddol o goed yn yr ardal gadwraeth sy'n cyfrannu at ei chymeriad arbennig.

10.2 Rhywogaethau a Warchodir.

10.2.1 Cafwyd rywfaint o wybodaeth am rywogaethau penodol gwarchodedig a phwysig yn Ardal Gadwraeth Dolbenmaen.

10.2.2 Mae'n hysbys bod Afon Dwyfor yn gartref i rywogaethau nodedig o bysgod ac infertebratau, yn cynnwys:

- Eog
- Brithyll
- Penlletwad Cottus
- Lamprai'r nant
- Lamprai'r afon
- Lamprai'r môr
- Llysywen
- Cimwch afon crafanc wen
- Misglen dŵr croyw perlog

10.2.3 Mae'n hysbys bod Afon Dwyfor yn gynefin i boblogaeth o ddyfrgi a bod y fronwen, llygoden bengron goch a llygoden y coed hefyd wedi'u cofnodi mewn gwahanol leoliadau.



Proposed Conservation Area
1:2000 @ A4

 (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

YR AIL RAN – CYNLLUN RHEOLI ARDAL GADWRAETH

1.0 Crynodeb o Ddadansoddiad CGCB

CRYFDERAU

- Cysylltiad â Thywysogion Gwynedd. Pwysigrwydd hanesyddol uchel fel lleoliad i lys tywysogol.
- Y berthynas rhwng Plas Dolbenmaen, safle posibl adeilad Llys a'r Mwnt.
- Perthynas y Mwnt, y Plas a'r Eglwys.
- Dim trafnidiaeth sylweddol trwy graidd hanesyddol y pentref.
- Amrediad o adeiladau rhestredig a chraidd hanesyddol cryf yn yr anheddiad.
- Y lleoliad yn y dirwedd a golygfeydd tuag at Graig y Llan, Craig y Garn a Bryniau'r Tyddyn.

GWENDIDAU

- Anodd gweld y Mwnt, y golygfeydd wedi'i cuddio, yn enwedig pan fydd dail ar y coed.
- Colli tŷ gwreiddiol Tŷ Canol.
- Iard ac adeiladau metel mawr yn Nhŷ Canol.
- Colli golygfeydd allweddol wrth i goed a phrysgwydd dyfu'n ddiweddarach.
- Diffyg defnyddio'r hen ffordd dros Bont Dolbenmaen – mewn cyflwr gwael o ganlyniad i hynny.
- Agosrwydd yr A487 a sŵn traffig oddi wrthi.



CYFLEOEDD

- Trwsio ac adfer Plas Dolbenmaen a strwythurau cysylltiedig, sicrhau y diogelir y cyfanrwydd a'r berthynas gyda'r Mwnt.
- Newid ffin yr Ardal Gadwraeth i gynnwys y Byngalo a'r cae ger Plas Dolbenmaen.
- Defnyddio technolegau cynaliadwy mewn ffordd sensitif lle bo'n briodol.
- Mynediad at y Mwnt.
- Agor y golygfeydd tuag at y Mwnt o'r pentref ac o'r brif ffordd.
- Darparu adnodd dehongli'r Mwnt a gwneud gwell defnydd o'r hen ffordd a Phont Dolbenmaen.

BYGYTHIADAU

- Newid amhriodol ym Mhlas Dolbenmaen os na chaiff cynigion eu goruchwylio a'u rheoli'n gywir
- Diffyg defnydd o'r hen ffordd, coed a phrysgwydd yn ymledu, ac o ganlyniad y defnydd o Bont Dolbenmaen.
- Defnydd o Eglwys y Santes Fair yn y dyfodol os na fydd ei hangen fel eglwys.

2.0 Deall y materion

2.1 Cyflwr yr Ardal Gadwraeth

2.1.1 Mae Dolbenmaen wedi'i chadw'n dda o ran cadw ei hasedau hanesyddol. Mae'r berthynas rhwng y Mwnt a'r adeiladau cynnar eraill yn anghyffredin o gyflawn (er ei fod wedi newid gryn dipyn).

2.1.2 Mae'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r adeiladau allweddol wedi cael eu rhestru yn adlewyrchiad o bwysigrwydd y dreftadaeth bensaernïol a hefyd ei bod wedi cadw nodweddion a manylion gwreiddiol, er ei bod yn anffodus iawn y collwyd y Tŷ Canol gwreiddiol (oedd yn adeilad rhestredig).

2.1.3 Er bod y rhan fwyaf o'r adeiladau'n cael eu defnyddio ar gyfer preswyl neu at ddibenion buddiol, mae adeilad pwysig iawn Plas Dolbenmaen a'i adeiladau cysylltiedig yn wag ar hyn o bryd. Mae gwaith wedi bod yn digwydd, a chyflwynwyd cais ar gyfer ei adfer i'w ddefnyddio fel tŷ.[14] Cymeradwywyd ceisiadau eraill i drosi'r adeiladau allan yn ganolfan beicio a chaffi. Mae'n ymddangos bod gwaith ar yr ail o'r rhain wedi dechrau, ond wedi peidio.[15]

2.1.4 Mae rhai materion sy'n cael effaith niweidiol ar ddiddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Maen nhw'n cynnwys:

- Cyflwr Plas Dolbenmaen a'r Mwnt.
- Defnydd o forter amhriodol i bwyntio adeiladau hanesyddol, neu orffeniad o rendrad neu baent o fathau diweddarach.
- Adeiladu estyniadau, ffiniau a gwneud gwaith newydd yn yr ardal gadwraeth nad ydynt yn adlewyrchu'r amrediad pwysig o ddeunyddiau sy'n bodoli'n barod. Dylid annog defnyddio deunyddiau mwy priodol, naturiol.
- Datblygiadau neu estyniadau newydd sy'n amhriodol neu o ansawdd gwael.
- Lleoliad unedau storio ac adeiladau allanol.
- Colli dulliau traddodiadol o drin terfynau.

2.1.5 Mae'r enghreifftiau penodol yn cynnwys:

34 Golygfa'n dangos y Tŷ Canol gwreiddiol cyn ei ddymchwel (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

35 Pwyntio gyda sment, Plas Dolbenmaen.

[14] Ceisiadau Cynllunio ac Adeilad Rhestredig Cyngor Gwynedd (ddim ond ar gyfer tŷ Plas Dolbenmaen) – cyf. C09D/0197/36/LL & C09D/0196/36/CR.
[15] Cyf. cynllunio. C03D/0698/36/LL

- Pwyntio gyda sment modern ym Mhlas Dolbenmaen ac Eglwys y Santes Fair.
- Rendrad modern ym Mhlas Holland.
- Adeiladau allan ger y fynwent ym Mhlas Holland.
- Gorffeniadau paent modern dros waith cerrig ac estyniad metel ym Min-y-Ddôl.
- Datblygiad Tŷ Canol (yn cynnwys tŷ arall yn disodli'r gwreiddiol) gwaith creu wyneb ar dir ac adeiladau storio modern.

2.2 Adeiladau mewn Perygl

2.2.1 Nid yw Plas Dolbenmaen a'r adeiladau allan, rhestredig, yn cael eu defnyddio. Canlyniad hynny yw bod perygl sylweddol i'r adeiladau hyn a'r Mwnt, sy'n gysylltiedig.

2.2.2 Fel y dywedwyd yn gynharach, fe gymeradwyodd Cyngor Gwynedd yn 2005 geisiadau i newid yr adeiladau allan i fod yn ganolfan beicio a chaffi, ac mae'n ymddangos bod gwaith wedi dechrau ar hyn, yn cynnwys rhoi toeau llechen newydd (modern, gyda rhesi o lechi o faint cyfartal) ond y daeth y gwaith i ben wedyn. Cymeradwywyd caniatâd adeilad restredig yn 2012 ar gyfer cadw Plas Dolbenmaen fel tŷ, gyda newidiadau cysylltiedig, ond ni wnaethpwyd unrhyw waith.

2.2.3 Os na fydd gwaith yn digwydd yn y dyfodol agos, dylai'r awdurdod lleol (gan fod hwn tu allan i'r Parc Cenedlaethol) ystyried cymryd camau pellach *ar fyrder.*

2.3 Golwg Gyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB.

2.3.1 Gwnaethpwyd dadansoddiad CGCB ar gyfer Ardal Gadwraeth Dolbenmaen. Defnyddir hwn i ddangos beth yw'r materion, ond hefyd rai o gyfleoedd a chryfderau hanfodol yr ardal gadwraeth. Bydd wedyn yn darparu gwybodaeth ar gyfer creu'r cynigion rheoli cadarnhaol sy'n dilyn.

2.3.2 Dangosodd y dadansoddiad CGCB nifer o bwyntiau allweddol ar gyfer gweithredu, i adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rheiny'n cynnwys:

- Cefnogi adfer manylion traddodiadol adeiladau, ac uwchraddio cynaliadwy ar gyfer gwella perfformiad amgylcheddol lle bo'n briodol.
- Canfod ar fyrder ffyrdd newydd o ddefnyddio Plas Dolbenmaen a'r adeiladwaith cysylltiedig.

36 Yr adeiladau tua'r de-ddwyrain ym Mhlas Dolbenmaen (hen stablau, mae'n debyg), noder y to llechi cymharol newydd. (2021).

37 Mae'r golygfeydd tua'r Mwnt o'r pentref wedi'u cuddio i raddau helaeth gan dwf coed a phrysgwydd, rhai'n dechrau effeithio ar y domen erbyn hyn. (2021)

- Gwell rheolaeth dros ddatblygiad a newid yn yr Ardal Gadwraeth ac o'i chwmpas, i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n well y deunyddiau lleol a'u bod o ansawdd, trefn a dyluniad priodol.
- Estyn ffin yr ardal gadwraeth y gynnwys y Byngalo.
- Agor y golygfeydd tuag at y Mwnt, trwy gael gwared ar brysgwydd a choed llai pwysig.
- Ystyried gwell dehongli, a gweithio gyda'r perchen tir ar gyfer posibilrwydd o fynediad at y Mwnt.

2.3.3 Mae'r CGCB yn enwi nifer o wendidau a bygythiadau, sydd wedi'u mynegi fel camau gweithredu, yn cynnwys:

- Ceisio ymgysylltu mewn ffordd gadarnhaol i adfer lle bu newidiadau niweidiol i adeiladau a nodweddion allweddol.
- Ystyried mesurau i wella'r hen ffordd dros Bont Dolbenmaen, efallai fel llwybr beic, a darparu dehongli, adfer golygfeydd pwysig.
- Ceisio sicrhau bod golygfeydd yn cael eu diogelu trwy defnyddio rheolaeth weithredol o goed a phrysgwydd, yn enwedig o gwmpas y Mwnt.
- Posibilrwydd o wella cyfleusterau i'r gymuned ac ymwelwyr â'r pentref, trwy wneud defnydd buddiol o adeiladau allan Plas Dolbenmaen.
- Sicrhau diogelu mannau glas a golygfeydd allweddol, trwy ymgysylltu lleol ac wrth ystyried ceisiadau datblygu.

3.0 Rheolaeth Gadarnhaol.

3.1 Newidiadau i Ffiniau.

3.1.1 Bwriedir estyn ffiniau'r ardal gadwraeth i gynnwys y Byngalo a'r cae tua'r dwyrain o Blas Dolbenmaen, gweler rhan 1.7.0.

3.2 Diogelwch Polisi Lleol a Chenedlaethol

3.2.1 Darperir cefndir polisi deddfwriaethol ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth yn y ddogfen ragarweiniol ***Cyflwyno a Throsolwg Polisi Cynllunio WEBLINK.*** Mae'r ddogfen hon hefyd yn rhoi canllawiau cyffredinol a pholisïau.

3.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth

3.3.1 Gellid gwella ei diddordeb arbennig yn sylweddol trwy roi sylw i rai o'r materion, a gwendidau a bygythiadau i'r Ardal Gadwraeth (gweler 2.0). Gellid gwneud hynny trwy estyn pwerau neu ganllawiau cynllunio.

3.3.2 Mae'r materion a chyfleoedd penodol yn cynnwys:

- Ystyried briff dylunio i sicrhau bod yr adeiladau nad oes eu hangen mwyach neu sy'n cael eu tanddefnyddio yn cael eu ail ddefnyddio neu i gael gwell defnydd. Byddai hyn yn gymwys ar gyfer Plas Dolbenmaen a'r adeiladau cysylltiedig.
- Ystyried ymyrryd trwy gyfrwng y peirianweithiau a ddarperir o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i sicrhau dyfodol buddiol i Blas Dolbenmaen, yr adeiladau allan cysylltiedig a'r Mwnt.
- Ceisio cael gwell reolaeth ar ddatblygiad o ansawdd amhriodol ar gyrion yr ardal gadwraeth.
- Ystyried mesurau i wella'r hen ffordd dros Bont Dolbenmaen, efallai fel llwybr beic a darparu dehongli, adfer golygfeydd pwysig.
- Sicrhau diogelu golygfeydd trwy gyfrwng rheolaeth weithredol ar goed a phrysgwydd, yn enwedig o gwmpas y Mwnt.
- Annog adfer rhai o'r manylion saernïaeth i adeiladau sydd o bwys yn lleol, a defnyddio deunyddiau traddodiadol fel pwyntio a rendro gyda chalch poeth.

3.3.3 Gan ddefnyddio'r arfau uchod a thrwy'r ymgynghori (gweler isod), cynyddu ymwybyddiaeth o'r Ardal Gadwraeth a'i phroffil ac annog datblygiad a newid priodol. Hynny'n cynnwys:

- Ymwybyddiaeth ymysg perchnogion a chymuned Dolbenmaen.
- Cynyddu ymwybyddiaeth a (gyda chefnogaeth yn y dyfodol) sgiliau ar gyfer contractwyr a chrefftwyr lleol.

3.4 Cynaliadwyedd a Gwella Amgylcheddol

3.4.1 Mae dogfen ar gael sy'n darparu canllawiau ar y ffordd iawn o wneud gwelliannau effeithlonrwydd ynni, a'r caniatadau fydd eu hangen yn Ardaloedd Cadwraeth Eryri, sef: ***Cyngor Ynghylch Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth - Canllaw Cynllunio ac Ymarferol WEBLINK***

3.4.2 Mae gan Ddolbenmaen gyfleoedd naturiol ar gyfer cynhyrchu ynni gyda chynlluniau micro-bŵer oherwydd y lleoliad ger Afon Dwyfor a chyfeiriad rhai strwythurau allweddol.

3.4.3 Dylid cefnogi ac annog cynlluniau i gynhyrchu ynni cynaliadwy lle nad ydynt yn cael effaith niweidiol ar gymeriad arbennig neu fioamrywiaeth yr ardal gadwraeth.

3.5 Bioamrywiaeth

3.5.1 Mae coed yn hafodol bwysig i'r bioamrywiaeth a'r arwyddocâd asthetig. Does gan Dolbenmaen ddim coed ar hyn o bryd wedi'u diogelu'n benodol gan orchmynion cadw coed, ond dangosir coed arwyddocaol sy'n bwysig ar gyfer yr ardal gadwraeth (gweler 4.3).

3.5.2 Mae cyfle sylweddol i wella bioamrywiaeth yn yr ardal gadwraeth, a dyma enghreifftiau o rai pethau y gellid eu gwneud:

- Gosod blychau adar ac ystlumod a datblygu cynllun i reoli blychau
- Gwella cynefinoedd bywyd gwyllt trwy ddefnydd priodol o doeau glaswellt a nodweddion adeiledig eraill mewn estyniadau neu adeiladau newydd, lle bo hynny'n briodol ar gyfer y dreftadaeth adeiledig
- Rheoli a gwella gwrychoedd
- Diogelu coed yn ystod gwaith adeiladu
- Peidio ymyrryd, er mwyn gadael i goed aeddfedu
- Gadael pren marw sy'n sefyll a chreu tomenni o bren marw, ar gyfer pryfed a bywyd gwyllt arall

3.5.3 Sicrhau bod datblygiad yn digwydd ar sail gwybodaeth am, ac mewn cydymdeimlad gydag, ardaloedd cymeriad unigryw'r Ardal Gadwraeth a'i fod yn cymryd i ystyriaeth dystiolaeth arall o gymeriad hanesyddol a sensitifrwydd tirwedd yr ardal o gwmpas.

3.5.4 Sicrhau y bydd cynigion datblygu'n gwella'r diddordeb bioamrywiaeth ac amrywiaeth daearegol.

3.5.5 Gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddatblygu a sicrhau gweithrediad prosiectau i wella'r dirwedd a chreu a gwella cynefinoedd sydd o werth ar gyfer cadwraeth natur.

3.5.6 Annog datblygiadau i gynnwys mesurau i gyfrannu'n gadarnhaol ar fioamrywiaeth gyffredinol yr ardal.

3.5.7 Gwella isadeiledd gwyrdd mewn ffordd sy'n darparu ar gyfer anghenion ynni'r ardal, heb gael effaith niweidiol ar fioamrywiaeth yr ardal neu gymeriad yr ardal gadwraeth.

4.0 Ymgynghoriad

4.1.1 Fe ymgynghorwyd fel a ganlyn ar yr Arfarniad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Drafft:

- Gyda Chyngor Cymuned Dolbenmaen.

Atodiadau:

Atodiad A - Ffynonellau

Dyma'r prif ffynonellau gwybodaeth o ddeunydd wedi'i gyhoeddi a ddefnyddiwyd wrth gynhyrchu'r Arfarniad hwn:

Cosgrove, J. & Talbot, J. *The Roadside Geology of Wales* (Geologists Assoc. 69), Geologists Association, 2017.

Edwards, N. (ed.), (1997). Landscape and Settlement in Medieval Wales (Oxbow Monographs, 81)

Fenton, R. (1810), *Tours in Wales (1804–1813)* (ailgyhoeddwyd gan Gymdeithas Archaeolegol Cymru yn 1917)

Gresham, Colin, A. (1973) *Eifionydd: Study of Landownership from the Mediaeval Period to the Present Day*. Gwasg Prifysgol Cymru.

Gwyn, D (2006), *Gwynedd: Inheriting a Revolution* (Phillimore, Chichester)

Gwyn, D (2015) *Welsh Slate: The Archaeology and History of an Industry (*Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru*).*

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, adroddiad rhif. 2155. *Drafft Arfarniad Ardal Gadwraeth Dolbenmaen,* 2011.

Hall, E. Hyde (1811), *A Description of Caernarvonshire (1809–11) (argraffiad 1952).*

Haslam, R., Orbach, J. a Voelcker, A. (2009) *The Buildings of Wales: Gwynedd* (Yale University Press, Llundain).

Hughes H & North H. L. *'The Old Churches of Snowdonia' (1924).*

Lewis, S. (1849), *A Topographical Dictionary of Wales* (Llundain)

Lloyd, J. E. (1905) *Some notes on Medieval Eifronydd*, Archaeologica Cambriensis, 295-302. *Gwelwyd trwy gyfrwng*: https://journals.library.wales/view/4718179/4720377/402#?xywh=-1657%2C-176%2C5252%2C3464

Lynch, Frances, *A guide to Ancient and Historic Wales – Gwynedd*, Gwasg Ei Mawrhydi, 1995.

Pennant, T. (1781), *A Tour in Wales* (Llundain) (1773-76), *Gwelwyd trwy gyfrwng: https://www.library.wales/discover/digital-gallery/pictures/a-tour-in-wales*

Rhys, J & Gwenogvryn Evans, J. (1887) *The Text of the Mabinogion,* Prifysgol Rhydychen (a chyfieithiadau diweddarach) gwelwyd trwy gyfrwng:

https://archive.org/details/textofmabinogion00rhysiala/page/n5/mode/2up?ref=ol&view=theater

Roscoe, T. (1853), *Wanderings and Excursions in North Wales* (Llundain)

Smith, B. a Neville George, T. *British Regional Geology – North Wales (Gwasg Ei Mawrhydi) 1961.*

Cosgrove, J. & Talbot, J. *The Roadside Geology of Wales* (Geologists Assoc. 69), Geologists Association, 2017.